

Bocsys Nadolig

Mae taflenni bocsys Ymgyrch Plentyn y Nadolig wedi cyrraedd ac os ydych am gymryd rhan a chefnogi'r apêl eleni mae angen i'r bocsys fod yn barod erbyn Sul cyntaf y mis nesaf, dydd Sul, Tachwedd 3. Dowch â'r bocsys neu eich rhoddion i'r Gweinidog erbyn hynny os gwelwch yn dda.

Mae'r trefniadau wedi newid eleni a bydd rhaid mynd â'r bocsys i Wrecsam yn hytrach nag i Landrillo yn Rhos fel a wnaed ers rhai blynyddoedd.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Mawrth, Hydref 21: Cyfarfod Henaduriaeth Arfon yn Capel Coch am 3.00 a 6.30 o'r gloch.

Nos Fercher, Hydref 22: Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng Ngharmel Llanllechid am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 26: Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg W R Williams, Y Felinheli.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Hydref 21: Cyfarfod Henaduriaeth Arfon yn Capel Coch am 3.00 a 6.30 o'r gloch.

Nos Fercher, Hydref 22: Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng Ngharmel Llanllechid am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 26: Gwasanaethir yn y ddwy oedfa, am 10.00 a 5.00 o'r gloch, gan y Gweinidog. Sylwch mai am 10.00 o'r gloch y cynhelir yr oedfa gan ein bod wedi cael Oedfa Deulu'r mis hwn y Sul diwethaf. Ni fydd Ysgol Sul.

REHOBOTH

Dydd Sul, Hydref 26: Ni fydd oedfa.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Hydref 24: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



Y mis nesaf - Deiniolen

Hydref 19

10.00 a.m. - Oedfa Ddiolchgarwch y Plant

5.00 p.m. - Oedfa Ddiolchgarwch yng ngofal aelodau'r ddwy eglwys a'r Gweinidog

Hydref 26

5.00 p.m. - Y Parchg W R Williams

Tachwedd 2

9.30 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Y mis nesaf - Llanberis

Hydref 19

10.00 a.m. - Mr John H Hughes

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Mr Glyn Owen

Hydref 26

10.00 a.m. - Y Gweinidog

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Tachwedd 2

10.00 a.m. - Y Parchg Glenys Jones

5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 609 - Dydd Sul, 19 Hydref, 2014

Cwterydd llawn

Nid yn Gronyn ond yn 'Gair neu ddau' yn *Y Pedair Tudalen* y soniais ddiwedd Ebrill eleni am y gwaith oedd yn cael ei wneud ar y pryd ar ochr y lôn rhwng 'Pen Twnnal' a gwesty Gwêl y Llyn. Ar y pryd, methu'n glir â deall oeddwn beth oedd pwrpas yr holl goncrid oedd yn cael ei osod yn lle'r gwair ar yr ochr chwith wrth fynd tua Chwm-y-glo, ac roeddwn yn ofni y byddai'r concrid yn golygu y byddai llifogydd gwaeth fyth ar y troadau peryglus mewn tywydd mawr. Ond roedd hynny cyn i'r cwteri gael eu gosod yn y concrid ac iddi ddod yn amlwg mai bwriad y gwaith a'r holl wario a wnaed oedd sicrhau bod y dŵr glaw yn llifo ymaith i'r cwteri hyn. Y gobaith oedd y byddai'r llifogydd yn llai o broblem ar y darn hwn o'r lôn.

Mae wedi glawio'n drwm ers diwrnod neu ddau, ac roedd cryn dipyn o ddŵr yn sefyll ar y lôn fore ddoe. Wedi'r holl wario, does dim gwahaniaeth o gwbl. Ac eto, fedr neb ddeud bod y misoedd o waith wedi bod yn ofer chwaith. Fwy na thebyg nad oes dim o'i le ar y cynllun na'r gwaith a wnaed ond bod ceg y cwterydd yn llawn o ddail yr hydref fel nad oes modd i'r dŵr wneud dim ond gorlifo i'r lôn. Mae angen clirio'r cwterydd er mwyn i'r dŵr lifo'n rhydd.

Tybed pa sianelau neu gwterydd sydd angen eu clirio yn ein bywydau ni? Pa sianelau, er enghraifft, sydd angen eu clirio er mwyn i ddŵr bendithion Duw lifo? Pa anghrediniaeth sydd raid ei symud er mwyn i geisio cymorth Duw?

Pa amheuaeth sydd raid ei dileu er mwyn i ni dderbyn ei faddeuant? Pa galedwch sydd raid ei orchfygu er mwyn i ni brofi cymdeithas felys â'r Arglwydd? Mae dyfroedd bendithion Duw yn llifo atom, ond mae sianelau llawn o'r fath bethau yn gallu ein rhwystro rhag eu mwynhau.

Neu, a newid y ddelwedd am ychydig (gan mai sôn am lifogydd yr oeddwn) pa gwterydd sydd angen eu clirio a pha ddail a baw sydd angen eu symud rhag i'n bywydau ninnau fod yn llanast? Beth am yr amheuan sy'n ein rhwystro rhag edrych mewn ffydd ar Iesu Grist? Beth am yr hunan gyfiawnder sy'n ein cadw rhag cyfaddef ein beiau? Beth am yr oerni calon sy'n peri i ni beidio â charu Duw? Beth am y mudandod sy'n ein rhwystro rhag diolch i Dduw am ei drugaredd?

Oes, mae angen clirio'r cwterydd, a gobeithio y caiff y gwaith ei wneud yn fuan cyn i'r gaeaf ddod. A bydd angen eu clirio'n gyson er mwyn iddynt fod yn effeithiol. Ac yn yr un ffordd, mae angen gwaith cyson, dyddiol hyd yn oed, yn ein bywydau ni er mwyn i'r sianelau fod yn glir. Mae'r gwaith hwnnw yn llaw Duw ei hun, gan ei fod trwy'r Ysbryd Glân yn ein sancteiddio a'n puro. Gweddiwn ninnau eiriau'r emyn:

Ysbryd y tragwyddol Dduw,

disgyn arnom ni ...

Plyg ni, trin ni, golch ni, cod ni:

Ysbryd y tragwyddol Dduw,

disgyn arnom ni.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Cynhelir Cyfarfod Diolchgarwch y Plant yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch, ac yna am 5.00 o'r gloch cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yng ngofal aelodau'r ddwy eglwys.

Cynhelir oedfa yn Capel Coch am 10.00 dan arweiniad Mr John Hughes ac oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad Mr Glyn Owen, Llanwnda. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Diolchgarwch

Cynhaliwyd Cyfarfod Diolchgarwch y Plant yn Capel Coch fore Sul diwethaf. Diolch yn fawr i athrawon yr Ysgol Sul am eu help i baratoi ar gyfer yr oedfa, a diolch i'r plant i gyd am gymryd rhan.

Roedd yn oedfa braf iawn, ac ar ôl yr oedfa cafwyd cyfle fel sy'n arferol ar Sul yr Oedfa Deulu fisol i gael paned a sgwrs.

Bydd oedfa Ddiolchgarwch am 10.00 o'r gloch y Sul nesaf, Hydref 26, dan ofal y Gweinidog.

Henaduriaeth Arfon

Bydd Henaduriaeth Arfon yn cyfarfod yn Capel Coch yr wythnos hon. Dyma'r hen gyfarfod misol sydd erbyn hyn yn cael ei gynnal bedair gwaith y flwyddyn yn unig.

Cynhelir dau gyfarfod ddydd Mawrth (Hydref 21). Bydd y cyfarfod arferol am 3.00 o'r gloch, ac yna fe gynhelir oedfa ordeinio blaenoriaid newydd am 6.00 o'r gloch. Mae croeso cynnes i bawb i'r oedfa honno.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter a Chyfarfod Pregethu Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Carmel, Llanllechid am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Hydref 22. Y pregethwr eleni fydd y Parchg John Gwilym Jones, Peniel, Caerfyrddin. Mae croeso cynnes i bawb.

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir Cyfarfod Gweddi Efe yn nhŷ Andrew Settatee, Cartref, Caethro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch fore Gwener nesaf, Hydref 24. Mae croeso i unrhyw un ddod atom, ac nid oes rhaid poeni am fedru dod bob wythnos.

CIC

Bydd y cyfarfod nesaf yn Capel Coch nos Wener, Hydref 24.

Gwn Glân a Beibl Budr

Gofynnwyd i ni estyn gwahoddiad i gyfarfod a gynhelir yng nghapel Seilo, Caernarfon, am 7.00 o'r gloch, nos Iau, Hydref 23 pan gyflwynir 'Gwn Glân a Beibl Budr'.

Portread Emlyn Richards a Harri Parri o John Williams, Brynsiencyn a'r Rhyfel Byd Cyntaf yw hwn, ac y mae croeso cynnes i unrhyw un fynd yno i'w weld.

Ni chodir tâl ond derbynir rhoddion at waith Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

Cymdeithas Undebol Llanberis

Agorwyd tymor newydd Cymdeithas Undebol Llanberis nos Fawrth yng nghwmni Arfon Wyn o Langwyllog, Sir Fôn. Mae'n wyneb cyfarwydd fel prif ganwr grwp Y Moniars. Ond nos Fawrth, roedd y pwyslais pennaf ar ei gysylltiadau teuluol â Llanberis wrth iddo olrhain ei hanes a'i yrfa. Er mai yn Sir Fôn y mae wedi byw ar hyd ei oes, roedd ei dad, y diweddar Eric Humphreys wedi ei fagu yn Llanberis a soniodd Arfon amdano'i hun yn dod i dy ei nain a'i daid yn Nôl Elidir, ac am y balchder oedd gan ei dad yn y pentref ar hyd ei oes.

Cawsom hanes magwrfa Arfon a'i ddyddiau ysgol a choleg. Soniodd hefyd am ei yrfa fel athro a phrifathro yn Ysgolion Hafod Lon, a Phendalar a Biwmares. Ac wrth gwrs, cawsom sawl cân ganddo o'r nifer fawr o ganeuon a gyfansoddodd dros y blynyddoedd. Gorffennodd y noson gyda chân a oedd yn sôn am ddau berthynas iddo o Lanberis a laddwyd yn y Rhyfel Mawr.

Roedd yn benderfynol o ganu'r gân hon yn Capel Coch, a thipyn o syndod iddo oedd sylweddoli bod enw'r ddau ar un o restrau'r rhai o Gapel Coch a aeth i'r rhyfel sy'n cael eu dangos ar hyn o bryd ar silffoedd ffenest y festri.

Diolchwyd i Arfon gan Miss Dilys Mai Roberts. Wedi'r cyfarfod aeth pawb at y byrddau i fwynhau lluniaeth oedd wedi ei baratoi ar eu cyfer. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n helpu i baratoi ac i weini'r swper. Cafwyd dechrau da iawn i'r tymor newydd.

Cyfarfod Blynyddol Cynllun Efe

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cynllun Efe yng Nghapel y Rhos am 7.00 o'r gloch nos Lun, Tachwedd 3. Gwahoddir chi oll i'r cyfarfod hwn a fydd yn adrodd am waith Efe dros y flwyddyn. Ceir rhagor o fanylkion yr wythnos nesaf.

Dosbarth Beiblaidd

Bydd Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn ail gychwyn nos Fercher, Tachwedd 5. Bydd yn gyfle da i rai newydd ohonoch ddod i'r cyfarfod. Byddei'n dda gweld rhagor yn dod i fwynhau'r gymdeithas arbennig sydd ynddo. Dowch, da chi.

Cardiau Nadolig

Roedd cardiau Nadolig Cyngor Ysgolion Sul i'w cael yn y cyfarfod yn Salem Caernarfon nos Fercher. Maent ar werth am £2 y pecyn gan Valerie Jones, Bryn Gelli gyda'r elw at Ysgol Sul, Capel Coch. Gellwch ffonio 871150 i archebu pecynnau o gardiau.

Bydd cardiau ar werth yn Neiniolen at yr Ysgol Sul yno hefyd. Bydd y cardiau i'w cael gan Mrs Jane Thorman Jones o'r wythnos nesaf ymlaen.